
Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



# Adroddiad Blynyddol: Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2016/17

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad** .......... 3
**2. Cefndir** .......... 3
**3. Amcanion Cydraddoldeb** .......... 5
**4. Casglu a monitro data** .......... 6
**4.1 Data Staff** .......... 7
**4.1.1 Rhyw** .......... 12
**4.1.2 Oedran** .......... 13
**4.1.3 Ethnigrwydd** .......... 16
**4.1.4 Anabledd** .......... 17
**4.1.5 Crefydd a Chred** .......... 18
**4.1.6 Cyfeiriadedd Rhywiol** .......... 19
**4.1.7 Recriwtio** .......... 19
**4.1.8 Y Rheini sy'n Gadael** .......... 22
**4.1.9 Annog datgelu** .......... 26
**4.2 Data myfyrwyr** .......... 27
**4.2.1 Proffil myfyrwyr cyffredinol** .......... 28
**4.2.2 Rhyw** .......... 30
**4.2.3 Oedran** .......... 33
**4.2.4 Ethnigrwydd** .......... 36
**4.2.5 Anabledd** .......... 39
**4.2.6 Crefydd / Cred** .......... 44
**4.2.7 Cyfeiriadedd Rhywiol** .......... 45

## 1. Cyflwyniad

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn grŵp sector deuol amlddisgyblaethol sy'n ehangu o ddarparwyr Addysg Uwch (AU) ac Addysg Bellach (AB) sydd â champysau ar draws de-orllewin Cymru, de Cymru a Llundain.

Mae Grŵp Y Drindod Dewi Sant yn cynnwys y Brifysgol, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, y naill a'r llall yn ddarparwyr addysg bellach yn y rhanbarth.

Mae cydraddoldeb yn un o alluogwyr allweddol grŵp y Brifysgol; rydym wedi ymrwymo i Gymru fwy cyfartal a hyrwyddo amgylcheddau ac arferion dysgu, addysgu, cymdeithasol a gweithio sy'n ddealladwy, teg a chynhwysol. Mae hyn wedi ei drefnu yn ôl Nod Llesiant Cenedlaethau Llywodraeth Cymru o Gymru fwy cyfartal.

Ein gweledigaeth ni yw creu diwylliant agored sy'n parchu eraill a lle nodir ac y dilëir rhwystrau i'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Rydym am i'n pobl ni deimlo'n ddiogel ac yn werthfawr, a chyflawni ein potensial llawn er lles unigolyn, y sefydliad a'n cymunedau ehangach. Rydym am hyrwyddo cydraddoldeb cyfle, arferion gweithio teg, a pherthnasoedd rhyngbersonol da ar draws ein cyrff staff a myfyrwyr.

Ein nodau yw:

Dileu gwahaniaethu, poeni ac erlid anghyfreithlon, sy'n cynnwys:

- Helpu pobl i ddeall ystyr y termau hyn a pha ymddygiadau ac agweddau sy'n amhriodol;
- Sicrhau y caiff pawb eu trin yn gyfartal;
- Dileu gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol o'n gwaith a'n hamgylchedd astudio.

Hyrwyddo a datblygu cyfle cyfartal, sy'n cynnwys:

- Lleihau effaith anfantais;
- Nodi, deall a diwallu anghenion ein staff a'n dysgwyr / myfyrwyr;
- Annog pobl i fanteisio ar gyfleoedd, yn enwedig pobl o grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli.

Hyrwyddo a meithrin perthnasoedd da rhwng pobl, sy'n cynnwys:

- Hyrwyddo goddefgarwch a dealltwriaeth;
- Mynd i'r afael â rhagfarn;
- Esbonio manteision amrywiaeth

## 2. Cefndir


Datblygodd y Brifysgol Grŵp Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) newydd yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 ar gyfer cyfnod 2016 – 2020 sy'n cynnwys ein partneriaid sector deuol ac sydd wrth wraidd ein hymrwymiad i hyrwyddo cyfle cyfartal a nodi rhwystrau rhag cyfranogi a mynd i'r afael â'r rhain.

Mae'r is-strategaethau cysylltiedig yn cynnwys:

- Y Strategaeth Ehangu Mynediad ac Ymgysylltu â'r Gymuned
- Y Strategaeth Iaith Gymraeg a Dwyieithrwydd

Er nad yw'r Gymraeg yn nodwedd warchodedig, mae'r Brifysgol yn cydnabod ei rôl bwysig yn niwylliant a threftadaeth Cymru.

Cyhoeddwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn dilyn ymgynghori'n ffurfiol â rhanddeiliaid ac mae'n cynnwys trideg dau o amcanion cydraddoldeb sy'n seiliedig ar y pedair thema ganlynol:



## 3. Amcanion Cydraddoldeb

**Adolygiad o 2016/17**

Ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, nodwyd bod is-set o amcanion yn feysydd blaenoriaeth ac aseswyd y chynnydd o ran cyflawni'r amcanion hynny yn 2016/17 gan y Pwyllgor Cydraddoldebau ac uwch dîm rheoli sector deuol Y Drindod Dewi Sant. Y cyflawniadau nodedig oedd y rhai canlynol:

Thema Un: Cryfhau arweinyddiaeth a llywodraethu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar draws y Grŵp

- Sefydlwyd Pwyllgor Cydraddoldebau Grŵp Y Drindod Dewi Sant yn 2016 ac mae wedi cyfarfod yn rheolaidd hyd yn hyn i fonitro'r camau i weithredu'r CCS.

Thema Dau: Cryfhau'r camau i fonitro'r data

- Sefydlwyd gweithgor gyda chynrychiolwyr staff a data myfyrwyr.

Thema Tri: Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

- Cynhaliwyd pum sioe symudol cydraddoldeb mewn pedwar lleoliad yn 2017 i godi ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd, ac aeth y staff a'r myfyrwyr i'r rhain.
- Cafodd deunydd e-ddysgu dwyieithog ym maes Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei gaffael a'i lansio yn 2017 i holl staff Y Drindod Dewi Sant.

Thema Pedwar: Creu amgylchedd cynhwysol ac agored

- Cymeradwywyd polisïau Bwlio ac Aflonyddu myfyrwyr a staff yn ffurfiol yn ogystal â sesiynau hyfforddi penodol i'r staff ynghylch polisïau'r myfyrwyr a'r staff.
- Adolygodd y Brifysgol y polisi a'r weithdrefn Ailraddio newydd a diweddaru'r polisi Gweithio'n Hyblyg.
- Ystyriodd y Brifysgol ofynion y cynllun Hyder Anabledd newydd a ddyluniwyd i sicrhau y caiff pobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor gyfleoedd i gyflawni eu potensial a gwireddu eu dyheadau. Cymerwyd camau a gwnaed ymrwymiad i wneud cais am statws Ymrwymiad wrth Anabledd yn 2017/18.

**Blaenoriaethau a chynllun gweithredu ar gyfer 2017/18**

Mae'r Brifysgol wedi nodi amcanion cydraddoldeb penodol o blith y trideg dau amcan CCS yn ffocws ar gyfer 2017/18 yng ngoleuni targedau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer Cymru a chyd-destun Grŵp Y Drindod Dewi Sant. Y themâu allweddol sydd wrth wraidd y blaenoriaethau yw'r canlynol:

- Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Cryfhau camau i fonitro data
- Datblygu amcanion gwahaniaeth cyflog i fynd i'r afael â bylchau cyflog pan y'u nodir
- Recriwtio a chyflogi pobl anabl
- Camau i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod

Yn benodol, o ran cyflog cyfartal, ceir yr ymrwymiad i gynnal archwiliadau cyflog cyfartal rheolaidd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020. Cynhelir yr archwiliad cyflog

cyfartal nesaf yn 2017/18. Yn 2016/17, gwerthuswyd y swyddi'n systematig wrth integreiddio neu ailstrwythuro Cyfadrannau neu unedau Cymorth Proffesiynol yng nghyd-destun y datblygiadau ar ôl yr uno.

Ystyriwyd hefyd heriau canlynol EHRC i Gymru fel y'u nodir yn y ddogfen "A yw Cymru'n decach" yn rhan o'r broses o bennu blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod 2017/18:

- Cau'r bylchau cyrhaeddiad mewn addysg.
- Annog recriwtio, datblygu a gwobrwyo teg ym maes cyflogaeth.
- Gwella amodau byw mewn cymunedau cydlynol.
- Cynyddu mynediad i gyfiawnder ac annog cyfranogiad democrataidd.
- Gwella mynediad i wasanaethau iechyd meddwl a chefnogi pobl sy'n dioddef oherwydd iechyd meddwl.
- Atal cam-drin, esgeulustod a cham-drin mewn gofal ac mewn man cadw.
- Dileu trais, cam-drin a phoeni yn y gymuned.

Cymerwyd hefyd i ystyriaeth flaenoriaethau EHRC ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yng "Nghynllun Busnes Cymru ar gyfer 2017/18":

- Camau a gymerwyd i fynd i'r afael â thrais sy'n seiliedig ar hunaniaeth
- Gweithio i fynd i'r afael â'r bylchau cyflog ar sail rhyw, anabledd ac ethnigrwydd
- Gweithio ynghylch recriwtio a chyflogaeth pobl anabl
- Cydymffurfio â'r ddyletswydd sy'n benodol i gaffael

## 4. Casglu a monitro data

Mae'r Drindod Dewi Sant yn casglu ac yn monitro data o'r ffynonellau mewnol ac allanol canlynol:

- System cofnodion Adnoddau Dynol y Brifysgol
- System cofnodion Adnoddau Dynol Colegau AB
- Systemau Cofnodion Myfyrwyr y Brifysgol
- Data sefydliadol staff a myfyrwyr gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) (a gafwyd trwy Heidiplus, porth dadansoddi data).

Defnyddir data at y dibenion canlynol:


- asesu defnyddioldeb ac effaith ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chynlluniau gweithredu cysylltiedig;
- nodi tueddiadau oddi mewn i'n staff a'n poblogaethau dysgwyr / myfyrwyr ynghylch nodweddion gwarchodedig;
- nodi a thynnu sylw at unrhyw rwystrau parhaus a/neu feysydd o dangynrychiolaeth neu anghydraddoldeb;
- asesu ein cynnydd o ran ein hamcanion cydraddoldeb a gwirio i weld a oes angen diweddaru neu ddiwygio'r rhain;
- nodi blaenoriaethau gweithredu yn y dyfodol.

## 4.1 Data Staff

Roedd y data staff yn seiliedig ar y data a roddwyd i Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn 2016/17 neu mewn rhai achosion, y data a ddaliwyd ar y systemau AD mewnol. Mae data HESA wedi eu talgrynnu at ddibenion diogelu data.


I roi cyd-destun, cymharwyd data staff y Brifysgol â gwybodaeth sector Addysg Uwch gan yr Uned Herio Cydraddoldeb (ECU) yn ei hadroddiad *Equality in higher education: staff statistical report 2017* fel y bo'n briodol.

Yn 2016/17 cyflogodd UWTSD gyfanswm o 1,590 o staff, a 47% yn staff academaidd a 53% yn ancademaidd.*




TABL STF-1 Ffynhonnell: HESA
** Yn cynnwys tua 100 o staff academaidd o Goleg Sir Gâr.*


Yn 2016/17 cyflogodd y Colegau Addysg Bellach (AB) gyfanswm o 963 o staff, a 46% o'r rhain yn staff academaidd a 54% yn anacademaidd.





Tabl STF-2; Ffynhonnell: Ffynhonnell Fewnol


Mae 85% o'r staff wedi eu cyflogi yn Y Drindod Dewi Sant ar gontract pen-agored / parhaol o'u cymharu â 15% ar gontract cyfnod sefydlog. Dyna gynnydd 2% yng nghyfran y staff ar

gontract pen agored / parhaol o'u cymharu â chanlyniad 2015/16 gyda lleihad cysylltiedig yng nghyfran y staff ar gontract cyfnod sefydlog.
O'u cymharu â data cenedlaethol y DU a roddwyd gan ECU yn ei hadroddiad, *Equality in Higher Education: staff statistical report 2017,* mae gan Y Drindod Dewi Sant gyfran uwch o staff sy'n gweithio ar gontractau pen agored / parhaol (85% ~ 75.9%). Mae gan Y Drindod Dewi Sant gyfran uwch o staff academaidd sy'n gweithio ar gontractau penagored/ parhaol o'u cymharu â ffigwr y DU (87% ~ 65.6%).





TABL STF-3; Ffynhonnell: HESA









TABL STF-4 a THABL STF-5; Ffynhonnell: HESA

Mae 67% o'r staff cyflogedig yn y Colegau AB ar gontract penagored / parhaol o'u cymharu â 33% sydd ar gontract cyfnod sefydlog/achlysurol.




TABL STF-6; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol





TABL STF-7 a THABL STF-8; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol

Patrwm Cyflogaeth

Patrwm cyflogaeth staff Y Drindod Dewi Sant, yn gyfrannol, yw 51% yn staff amser llawn a 49% yn rhan-amser. Mewn cymhariaeth, y ffigwr ar gyfer y DU yw 67.6% amser llawn a 32.4% rhan-amser.




TABL STF-9; Ffynhonnell: HESA

Mae'r proffil rhyw yn ôl patrwm cyflogaeth yn dangos bod 60% o’r staff gwrywaidd yn amser llawn a 45% o’r staff benywaidd yn amser llawn. Mae hyn yn is na ffigurau'r DU sef 77.1% o’r staff gwrywaidd mewn cyflogaeth amser llawn a 59.5% o fenywod mewn cyflogaeth amser llawn.







TABLE STF-10; Ffynhonnell: HESA

Cyflog

Mae dadansoddiad staff Y Drindod Dewi Sant ar sail ystod gyflog[1] yn 2016/17 yn dangos patrwm tebyg i ffigurau 2015/16 lle ceir y nifer uchaf yn ystod gyflog 4, sef 48% o gyfanswm y staff.





TABL STF-11; Ffynhonnell: HESA




TABL STF-12; Ffynhonnell: HESA

---


[1] *Mae'r cyflog yn seiliedig ar y cyflog contract ar gyfer aelodau staff mewn darparwr AB pan fo'n berthnasol ar 31 Gorffennaf yn y cyfnod adrodd, neu ddyddiad diwedd y contract os yw'n gynharach.*
*At ddibenion dadansoddi, mae'r cyflogau contract wedi eu grwpio'n chwe ystod gyflog, a rhan uchaf ac isaf pob ystod wedi eu trefnu yn ôl pwyntiau y golofn gyflo a ddefnyddir yng Ngholofn Gyflog JNCHES (neu'r Golofn Gyflog Derfynol fel y cyfeiriwyd ati'n flaenorol), fel y'i nodir yn y ddogfen Colofn Gyflog Unigol a geir yn [https://www.hesa.ac.uk/collection/c16025](https://www.hesa.ac.uk/collection/c16025) (Cyflog o golofn 1 Awst 2016).*




TABL STF-13; Ffynhonnell: HESA


### 4.1.1 Rhyw

Yn 2016/17 y dadansoddiad o ran staff Y Drindod Dewi Sant yw 57% o fenywod a 43% o ddynion, sy'n unol â chanlyniadau'r ddwy flynedd diwethaf. Mae proffil rhyw cyffredinol Y Drindod Dewi Sant yn fras yn unol â phroffil cyffredinol staff sy'n gweithio mewn addysg uwch yn y DU (54.1% yn fenywaidd a 45.9% yn wrywaidd) ac yng Nghymru (55% yn fenywaidd a 45% yn wrywaidd). Mae cyfran y staff academaidd benywaidd o'u cymharu â'r staff academaidd benywaidd yn Y Drindod Dewi Sant yn 53% o fenywod a 47% o ddynion yn uwch na ffigwr 45.3% a 54.7% yn eu tro.




TABL STF-16; Ffynhonnell: HESA


Yn 2016/17 y dadansoddiad rhyw ar gyfer staff AB yw 59% yn fenywaidd a 41% yn wrywaidd. Mae 56% o'r staff academaidd yn fenywaidd, a 44% yn wrywaidd. Mae 62% o'r staff anacademaidd yn fenywaidd, a 38% yn wrywaidd.





TABL STF-17; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol

### 4.1.2 Oedran


At ei gilydd mae proffil oedran y staff yn fras yn gymharol â'r ddwy flynedd flaenorol. Mae canran y staff yn y categorïau 51 mlwydd oed a throsodd wedi cynyddu o 34% yn 2015/16 i 37% yn 2016/17. Mae cyfran staff Y Drindod Dewi Sant yn y categorïau 51 mlwydd oed a throsodd yn uwch na ffigwr y DU o 29.5% ynghyd â ffigwr Cymru o 29.6%. Ymhlith y staff academaidd mae'r gyfran yn y categori 51 mlwydd oed a throsodd yn 45.6% o'i gymharu â ffigwr y DU o 30.7%. Canran y staff o dan 30 mlwydd oed yw 16%, sy'n cyfateb yn fras i ffigwr Cymru o 16.7% a ffigwr y DU o 16.8%.



TABL STF-18; Ffynhonnell: HESA





TABL STF-19; Ffynhonnell: HESA




TABL STF-20; Ffynhonnell: HESA

Y proffil oedran i staff AB yw:






TABL STF-21 a THABL STF-22; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol

### 4.1.3 Ethnigrwydd


Yn 2016/17 datganodd 85% o staff Y Drindod Dewi Sant beth oedd eu hethnigrwydd (1,350 allan o 1,590). O'r 85% a ddatganodd hyn, datganodd 96.5% mai 'gwyn' oedd eu hethnigrwydd. Y canrannau ar gyfer staff academaidd ac anacademaidd yw 95% a 97% yn eu tro.




TABL STF-23; Ffynhonnell: HESA





TABL STF-24; Ffynhonnell: HESA




TABL STF-25; Ffynhonnell: HESA

Yn 2016/17, datganodd 97% o'r staff AB mai 'gwyn' oedd eu hethnigrwydd (907 o 937).




TABL STF-26; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol


### 4.1.4 Anabledd

Yn 2016/17 datganodd 60 o aelodau staff Y Drindod Dewi Sant fod ganddynt anabledd, sef 4% o gyfanswm y staff. Hwn yw'r un canran ag yn 2015/16. Cyfran y staff academaidd ac anacademaidd yn eu tro yw 3% a 5%.  Mae'r ffigwr hwn yn cyfateb yn fras i gyfanswm ffigwr y DU o 4.6% a 5.2% o staff yng Nghymru sy'n datgan bod ganddynt anabledd.

Yn 2016/2017 datganodd 46 o aelodau staff AB Y Drindod Dewi Sant fod ganddynt anabledd, sef 5% o gyfanswm y staff.


### 4.1.5 Crefydd a Chred

Yn 2016/17, datganodd 31% o staff Y Drindod Dewi Sant eu crefydd a'u cred yn y modd hwn:




TABL STF-27; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol


Yn 2016/17, datganodd 24% o staff AB (CSG yn unig) eu crefydd a'u cred yn y modd hwn:




TABL STF-28; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol


### 4.1.6 Cyfeiriadedd Rhywiol

Yn 2016/17, datganodd staff Y Drindod Dewi Sant eu Cyfeiriadedd Rhywiol yn y modd hwn:




TABL STF-29; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol

Yn 2016/17, datganodd staff AB (CSG yn unig) eu Cyfeiriadedd Rhywiol yn y modd hwn:






TABL STF-30; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol

### 4.1.7 Recriwtio

Cymharwyd proffil ymgeiswyr recriwtio i’r Drindod Dewi Sant ag ymgeiswyr llwyddiannus Y Drindod Dewi Sant sydd â nodweddion gwarchodedig yn y modd hwn:


Rhyw





TABL STF-31 a THABL STF-32; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol


Oedran





TABL STF-33 a THABL STF-34; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol


Ethnigrwydd





TABL STF-35 a THABL STF-36; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol


Anabledd





TABL STF-37 a THABL STF-38; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol


Crefydd





TABL STF-39 a THABL STF-40; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol

Cyfeiriadedd rhywiol





TABL STF-41 a THABL STF-42; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol

### 4.1.8 Y Rheini sy'n Gadael

Proffil y staff sy'n gadael cyflogaeth Y Drindod Dewi Sant yn 2016/17 yw:

Rhyw


Mae proffil rhyw ar gyfer y rhai sy'n gadael Y Drindod Dewi Sant yn gymharol â phroffil rhyw holl staff Y Drindod Dewi Sant.




TABL STF-43; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol

Oedran


Nodir dosbarthiad oedran y staff sy'n gadael y brifysgol isod. Mae cyfran uchaf y rheini sy'n gadael rhwng 25 a 30 oed.




TABL STF-44; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol

## Ethnigrwydd


Proffil ethnigrwydd pawb a adawodd yn 2016/17 yw:




TABL STF-45; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol

## Anabledd


Cyfran y rhai a adawodd Y Drindod Dewi Sant ac a ddatganodd anabledd yn 2016/17 yw:




TABL STF-46; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol

Crefydd a Chred


Proffil y rhai a adawodd Y Drindod Dewi Sant ac a ddatganodd eu crefydd a'u cred yn 2016/17 yw:




TABL STF-47; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol

Cyfeiriadedd rhywiol

Yn 2016/17 proffil y rhai a adawodd Y Drindod Dewi Sant fesul eu cyfeiriadedd rhywiol yw:




TABL STF-48; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol

### 4.1.9 Annog datgelu

Yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16, gweithredwyd y modwl hunan-wasanaeth ar gyfer system AD/cyflogres yn Y Drindod Dewi Sant ar gyfer mwyafrif y staff. Mae hyn yn caniatáu i'r staff wylio a diweddaru eu gwybodaeth bersonol eu hunain gan gynnwys nodweddion gwarchodedig ac eithrio anabledd a beichiogrwydd. Rhaid rhoi gwybod yn syth am newid statws y rhain yn syth i Adnoddau Dynol.

Gwnaed ymdrech sylweddol i ddarparu sesiynau hyfforddi er mwyn annog pobl i ddefnyddio'r system ar gyfer hunan wasanaeth wrth ddiweddaru gwybodaeth bersonol. Mae'r Brifysgol yn ymwybodol y gallai gymryd mwy o amser i feithrin digon o ymddiriedaeth ac i wella cyfraddau datgelu nodweddion gwarchodedig.

Mae'r Brifysgol hefyd yn ymwybodol na fydd defnyddio'r system, ohoni ei hun, o reidrwydd yn gwella cyfraddau datgelu. Bydd yn bwysig parhau i greu'r hinsawdd gywir ar gyfer datgelu ar y cyd â chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd monitro data i annog staff i rannu gwybodaeth sensitif.

## 4.2 Data myfyrwyr

Mae'r data a roddir yn yr adran hon yn ymwneud â myfyrwyr AU sy'n astudio yng Ngrŵp Y Drindod Dewi Sant a myfyrwyr AU gyda phartneriaid AB Masnachfraint. Nid yw hyn yn cynnwys myfyrwyr AB sy'n astudio mewn partneriaethau cydweithredol. Ac eithrio'r data ceisiadau sy'n dod o'n warws data, rhoddwyd yr holl ddata eraill i HESA.[2] Mae data HESA wedi eu talgrynnu at ddibenion diogelu data. Mae'r holl ddata wedi eu meincnodi ar gyfer y sector, trwy ddefnyddio data yn nogfen ECU, *Equality in Higher Education: Student Statistical Report 2017*. Y dadansoddi yn yr adroddiad hwn sy'n llywio'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

Mae'r rhan hon o'r adroddiad ystadegol i gydraddoldeb yn ystyried yn gyntaf broffil cyffredinol myfyrwyr oddi mewn i Grŵp Y Drindod Dewi Sant ac wedyn yn canolbwyntio ar dderbyniad a chyrhaeddiad myfyrwyr sydd â'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Rhyw
- Oedran
- Ethnigrwydd
- Anabledd

Gwneir cymhariaeth â data 2015/16 pan fo'n bosibl ac yn briodol. Sylwer: ar gyfer derbyniad a chyrhaeddiad data 2016/17 yw'r gwaelodlin. Mae rhan olaf y data ystadegol ynghylch myfyrwyr, y rhoi data ynghylch crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol. Cwblheir dadansoddiad cydraddoldeb o ddata canlyniadau parhad a graddedigion ar gyfer adroddiad ystadegol 2017/18.

Nid yw'r Drindod Dewi Sant yn dal data myfyrwyr ynghylch beichiogrwydd na mamolaeth, a phriodas na phartneriaeth sifil ar ei system cofnodion myfyrwyr ac nid yw'r nodweddion gwarchodedig hyn, felly, wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ystadegol hwn i gydraddoldeb. Anfonir data myfyrwyr i HESA ynghylch ailbennu rhywedd. Am fod y niferoedd cyffredinol yn fach, er mwyn diogelu data, ni wnaed unrhyw ddadansoddiad o'r data yn yr adroddiad ystadegol hwn.


Yn 2016/17, mae cyfraddau datgelu, o ran nodweddion gwarchodedig, yn dangos darlun cymysg. Er enghraifft, o ran ethnigrwydd lleihaodd y canran 'anhysbys/amherthnasol' o 11.2% i 9.8% (gweler tabl STU-15).[3] Wrth gymharu'r derbyniad â'r data cofrestredig, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng categorïau 'anhysbys' adeg gwneud cais ac adeg cofrestru (e.e. ethnigrwydd: 29% ~ 9.8%) (Gweler tablau STU14 a 15). Yn yr un modd, o ran anabledd, datganodd 10.4% o'r ymgeiswyr anabledd yn 2016/17 tra datganodd 17.7% o'r myfyrwyr a gofrestrwyd anabledd (gweler tablau STU-19 a 21). O ran crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol, fodd bynnag, dirywio a wnaeth y cyfraddau datgelu. Yn 2015/16, dewisodd 15.9% o fyfyrwyr beidio ag ateb; yn 2016/17 20% (gweler tabl STU-27). Gwrthodwyd y wybodaeth gan 7.2% yn 2015/16; cynyddodd hyn i 9.3% yn 2016/17. Yn 2015/16 gwrthododd 10.2% wybodaeth a gadawodd 16.5% y wybodaeth yn wag ynghylch cyfeiriadedd rhywiol; yn 2016/17 roedd hyn yn 13.4% ac 20% yn eu tro (gweler tabl STU-28). Yn rhan o'r amcanion a nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, bydd y Brifysgol yn parhau i weithio i annog myfyrwyr i ddatgelu gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig.

---

[2] Ac eithrio'r data am grefydd a chyfeiriadedd rhywiol, mae'r holl ddata'n deillio o HeidiPlus.
[3] Sylwer y cynhwysir myfyrwyr nad ydynt yn byw yn y DU yn y categori hwn.


### 4.2.1 Proffil myfyrwyr cyffredinol

Rhwng 2015/16 a 2016/17, gostyngodd nifer y myfyrwyr a oedd yn astudio yn Y Drindod Dewi Sant 160 i 9765 o fyfyrwyr. Yn ôl Tabl STU-1, yn gyfrannol gwelir mai ychydig fu'r newid rhwng 2015/16 a 2016/17 ym mhroffil y myfyrwyr fesul lefel astudio. O gymharu â data cenedlaethol, mae gan Y Drindod Dewi Sant gyfran uwch o fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer rhaglenni astudio Israddedig Eraill (23% ~ 8.1%) a chanran llai sy'n astudio ar gyfer rhaglenni israddedig Gradd Gyntaf (54% ~ 68.6%). Mae hyn yn unol â chenhadaeth Y Drindod Dewi Sant i ehangu cyfleoedd cyfranogiad a mynediad i Addysg Uwch.




Tabl STU-1 Ffynhonnell: HESA

Rhoddir proffil cyffredinol myfyrwyr fesul patrwm astudio yn nhabl STU-2. Ac eithrio Graddau Cyntaf ac Ôl-raddedig Eraill, mae cyfran myfyrwyr rhan-amser yn uwch ar gyfer pob patrwm astudio arall. Fel y disgwylir, felly y mae hi'n benodol yn achos graddau ôl-raddedig a addysgir a graddau ymchwil ôl-raddedig. O gymharu â ffigurau cenedlaethol, gwelir hefyd broffil sy'n wahanol: Mae myfyrwyr Gradd gyntaf ac Ôl-raddedig Eraill, er enghraifft, yn fwy tebygol o fod yn amser llawn (+4.2% a 22.7% yn eu tro).




TABL STU-2 Ffynhonnell: HESA

Rhoddir proffil cyffredinol myfyrwyr Gradd Gyntaf Ôl-raddedig yn nhabl STU-3. Mae'r tabl hwn yn dangos bod canran cyffredinol graddau Anrhydedd Da (Cyntaf/2:1) wedi cynyddu o 67% yn 2015/16 i 69% yn 2016/17. Gostyngodd canrannau'r myfyrwyr a gafodd Anrhydedd Ail Ddosbarth Isaf neu Uchaf ychydig; tra bu cynnydd bach cyfatebol yn nifer yr Anrhydeddau Dosbarth Cyntaf a ddyfarnwyd.





TABL STU-3 Ffynhonnell: HESA

Mae canran graddau Anrhydedd Da yn is na chyfartaledd Cymru o 70.3%. Mae nifer yr Anrhydeddau Dosbarth Cyntaf yn uwch na chyfartaledd Cymru o 22.1% ond yn unol â phroffil oedran Y Drindod Dewi Sant (gweler adran 4.2.3). Mae canran graddau Anrhydedd Ail Ddosbarth Uchaf yn is na chyfartaledd Cymru (43% ~ 48%); mae canran y graddau ail

ddosbarth isaf yn unol â chyfartaledd Cymru, a chanran canlyniadau anrhydeddau trydydd dosbarth/ llwyddo ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru (6% ~ 4.9%).


### 4.2.2 Rhyw

Mae Tabl STU-4 yn rhoi'r ceisiadau fesul rhyw.





TABL STU-4 Ffynhonnell: Ffynonellau mewnol

Mae'r cydbwysedd rhyw o ran ceisiadau'n adlewyrchu proffil rhyw cyffredinol y sefydliad fel y'i dangosir gan dabl STU-5. At ei gilydd, mae proffil rhyw'r Drindod Dewi Sant wedi bod yn sefydlog dros y tair blynedd academaidd diwethaf. Rhwng 2015/16 a 2016/17 bu cynnydd bach yng nghanran cyffredinol y myfyrwyr gwrywaidd. Mae canlyniadau 2016/17 yn dychwelyd i'r duedd hon. Mae proffil rhywedd Y Drindod Dewi Sant yn unol â ffigurau cyfartalog Cymru (myfyrwyr gwrywaidd: 43.5% ~ 45.9%; myfyrwyr benywaidd: 55.4% ~ 54.1%) a chyfartaledd cenedlaethol y DU. Mae'r Cyfadrannau a'r Adran Farchnata'n cydweithio'n agos i fynd i'r afael ag anghydbwysedd rhywedd ynghylch y myfyrwyr a dderbynnir ar gyfer meysydd pwnc penodol.




TABL STU-5 Ffynhonnell: HESA


Mae Tabl STU-6 yn dangos y math o radd fesul rhyw. Mae'r canrannau'n weddol debyg ac nid oes unrhyw wahaniaeth mawr rhwng y mathau o raddau a astudir gan fyfyrwyr benywaidd neu wrywaidd.




TABL STU-6 Ffynhonnell: HESA


Yn yr un modd, fel y dangosir gan dabl STU-7, nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng canrannau myfyrwyr gwrywaidd a benywaidd sy'n astudio ar batrwm amser llawn neu ran-amser. Mae'r canrannau rhan-amser yn uwch i'r Drindod Dewi Sant ar gyfer myfyrwyr gwrywaidd a benywaidd o'u cymharu â chyfartaledd cyffredinol y DU. E.e. rhan-amser benywaidd: 28.8% ~ 25.3% a rhan-amser benywaidd: 29.3% ~ 21.5%. Mae hyn yn

adlewyrchu pwyslais Y Drindod Dewi Sant ar ehangu mynediad a’r oedran cyfartalog wrth ddechrau (gweler 4.2.3).




TABL STU-7 Ffynhonnell: HESA

Mae Tabl STU-8 yn ystyried proffil rhyw canlyniadau gradd yn 2016/17. Mae’r data yn dangos bod myfyrwyr benywaidd yn fwy tebygol o sicrhau graddau Anrhydedd Da na myfyrwyr gwrywaidd ac yn llai tebygol o gael canlyniadau gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Isaf Trydydd a Llwyddo. Mae canlyniadau’r Drindod Dewi Sant fesul canlyniad gradd, ar gyfer pob rhyw, yn unol â data cyfartalog i’r sector ar gyfer Cymru.





TABL STU-8 Ffynhonnell: HESA

Ystyrir canlyniadau cyrhaeddiad fesul rhyw ac ethnigrwydd yn adran 4.2.4.

### 4.2.3 Oedran


Mae'r data yn yr adran hon yn cyfeirio at oedran myfyrwyr ar ddyddiad cychwyn eu hastudiaethau. Sylwer nad yw'r grwpiau data a ddarparwyd gan HeidiPlus yn cyfateb yn llawn i'r grwpiau oedran a ddefnyddir gan ECU yn ei Hadroddiad Ystadegau Myfyrwyr yn 2017.

Mae Tabl STU-10 yn dangos y ceisiadau fesul oedran ar gyfer 2016/17. O gymharu'r tabl hwn â thabl STU-10, sy'n rhoi proffil oedran cyffredinol i'r sefydliad, mae'n glir bod myfyrwyr 24 oed ac isod yn fwy tebygol i'w derbyn i'r sefydliad, ond mae'r canrannau ymgeisio a chofrestru ar gyfer carfannau myfyrwyr 25 oed a throsodd yn unol â'i gilydd.





TABL STU-9; Ffynhonnell: Ffynonellau mewnol

Mae Tabl STU-10 yn dangos bod 71% o fyfyrwyr Y Drindod Dewi Sant yn 21 neu'n hŷn ar ddechrau eu hastudiaethau, sef cynnydd o 5% o'u cymharu â 2015/16. Mae hyn mewn cyferbyniad â'r duedd genedlaethol lle mae cyfran y myfyrwyr aeddfed wedi disgyn er 2003/4 ac yn enwedig er 2010/11. Mae'r proffil hefyd yn wahanol i broffil oedran cyfartalog y sector Cymreig, gyda chanran is o lawer o dan 21 wrth ddechrau ar eu hastudiaethau a chanrannau uwch o lawer dros 30 oed. Mae pwyslais cryf Y Drindod Dewi Sant ar ddatblygiad proffesiynol parhaus, uwchsgilio a dysgu gydol oes yn esbonio'r proffil oedran hwn.




TABL STF-10; Ffynhonnell:  HESA

Mae Tabl STU-11 yn dangos bod proffil oedran yr holl fyfyrwyr israddedig yn dangos dosbarthiad oedran tebyg iawn i broffil oedran cyffredinol Y Drindod Dewi Sant.




TABL STF-11. Ffynhonnell:  HESA

Rhoddir y berthynas rhwng oed a phatrwm astudio isod yn nhabl STU-12. Mae Adroddiad Ystadegau Myfyrwyr 2017 ECU yn dangos cydberthynas dda rhwng oedran a phatrwm astudio a chadarnheir hyn yn y tabl hwn lle mae myfyrwyr rhan-amser yn fwy niferus na myfyrwyr amser llawn yn achos yr holl fyfyrwyr 30 oed a throsodd ar ddechrau eu hastudiaethau.




TABL STU-12. Ffynhonnell: HESA

Rhoddir proffil oedran canlyniadau Gradd Gyntaf yn nhabl STU-13. Mae’r data i fyfyrwyr 40 oed a throsodd yn rhoi canlyniad mwy cadarnhaol na chanfyddiadau ledled y DU: yn genedlaethol, mae gan fyfyrwyr aeddfed gyfraddau uwch o ran cael dosbarth gradd is na 2:1 a dim ond 63% o’r rhai o dan 36 oed a gafodd radd Anrhydedd Dda. Oddi mewn i Gymru, y cyfartaledd yw 70.2%. Mae data’r Drindod Dewi Sant yn dangos yn achos myfyrwyr 40-49 mlwydd oed wrth ddechrau, bod hyn yn 81% (yn agos at gyfartaledd o 83% yn achos rhai 19-20 oed), yn achos myfyrwyr 50-59 88% i'r rhai sy’n 60 oed ac uchod wrth ddechrau 100%. Mae’r data’n cadarnhau y darlun cyffredinol bod perfformiadau Gymru is yn is yn achos myfyrwyr 21-29 oed na grwpiau oedran eraill.





| | 19-20 years | 21-24 years | 25-29 years | 30-39 years | 40-49 years | 50-59 years | 60 years and over |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Unclassified | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Third Class Honours / Pass | 0% | 6% | 9% | 2% | 5% | 0% | 0% |
| Lower Second Class Honours | 17% | 28% | 23% | 27% | 14% | 11% | 0% |
| Upper Second Class Honours | 50% | 44% | 45% | 39% | 43% | 44% | 33% |
| First Class Honours | 33% | 23% | 23% | 32% | 38% | 44% | 67% |

TABL STU-13; Ffynhonnell: HESA


### 4.2.4 Ethnigrwydd

Sylwer bod y prif gategorïau yn yr adran hon yn canolbwyntio ar fyfyrwyr yn y DU; mae myfyrwyr nad ydynt yn byw yn y DU wedi eu cynnwys yn y categori Anhysbys/Amherthnasol. Mae modd i fyfyrwyr beidio â datguddio eu hethnigrwydd a cheir data'r myfyrwyr hynny yn y categorïau 'anhysbys' / 'amherthnasol'. Mae'r lefel anhysbys / amherthnasol yn uwch o lawer adeg gwneud cais (29%) na'r adeg gofrestru (9.8%). O'r herwydd, mae'n anodd cymharu'n gywir y data derbyn a chofrestru (gweler tablau STU-14 a 15).



TABL STU-14; Ffynhonnell: Ffynonellau Mewnol


Gwelir proffil ethnigrwydd cyffredinol Y Drindod Dewi Sant yn nhabl SRU-15.




TABL STU-15; Ffynhonnell: HESA

O gymharu â data 2014/15 a 2015/16 gwelir bod Y Drindod Dewi Sant wedi mynd yn fwy amrywiol dros y tair blynedd academaidd diwethaf. Lleihaodd y myfyrwyr yn y categori gwyn o 89.8% yn 2014/15, i 83.6% yn 2015/16, i 80.3% yn 2016/17, sy'n is na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2016/17 o 90.7%. Ar yr un pryd, lleihaodd y categori 'anhysbys / amherthnasol ' o 11.2% i 9%. Aeth y cyfanswm Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) o 5.8% yn 2014/15 a 5.2% yn 2015/16 i 9.9% yn 2016/17. Mae'r cyfanswm BME ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 9.3%. Mae'r cynnydd clir yn niferoedd myfyrwyr BME yn ganlyniad dull strategol gyda ffocws ar ddarparu mynediad i astudiaeth AU i gymunedau 'anodd eu cyrraedd' trwy ddatblygu nifer o raglenni astudio CertHE sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth.

Gellir rhoi tystiolaeth o'r dull strategol hwn hefyd wrth ystyried y data ynghylch y math o radd a astudir fesul ethnigrwydd (gwelir tabl STU-16 a chanrannau'r myfyrwyr o gefndiroedd BME sydd wedi eu cofrestru ar ein rhaglenni astudio 'Israddedig Eraill').





| | Asian | Black | Other (including mixed) | Unknown / Not applicable | White |
|---|---|---|---|---|---|
| Other Undergraduate | 52% | 49% | 37% | 24% | 20% |
| Other Postgraduate | 2% | 1% | 5% | 4% | 7% |
| Higher Degree (taught) | 6% | 7% | 7% | 20% | 7% |
| Higher Degree (research) | 1% | 0% | 0% | 4% | 1% |
| Foundation Degree | 0% | 1% | 2% | 5% | 8% |
| First Degree | 39% | 40% | 49% | 43% | 57% |

Other Undergraduate, Other Postgraduate, Higher Degree (taught), Higher Degree (research), Foundation Degree, First Degree

TABL STU-16; Ffynhonnell: HESA


Mae Tablau STU-17 a 18 yn rhoi'r canlyniadau gradd yn ôl ethnigrwydd a'r canlyniadau gradd yn ôl ethnigrwydd a rhyw. Gellir esbonio'r mân wahaniaeth rhwng y ddau dabl ar sail y strategaeth dalgrynnu a ddefnyddir gan HESA at ddibenion diogelu data. Mae'n bwysig cymryd i ystyriaeth niferoedd isel myfyrwyr BME ar Raddau Cyntaf. Yn ystadegol, mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd dod i gasgliadau pendant. Fodd bynnag, wrth i niferoedd BME gynyddu, caiff perfformiad yn y maes hwn ei fonitro'n agos.




| | Asian | Black | Other (including mixed) | Unknown / Not applicable | White |
|---|---|---|---|---|---|
| Third Class Honours / Pass | 14% | 20% | 0% | 4% | 5% |
| Lower Second Class Honours | 57% | 40% | 17% | 38% | 24% |
| Upper Second Class Honours | 14% | 40% | 50% | 42% | 43% |
| First Class Honours | 14% | 0% | 33% | 15% | 28% |

Third Class Honours / Pass, Lower Second Class Honours, Upper Second Class Honours, First Class Honours

TABL STU-17. Ffynhonnell HESA





| | Asian | | Black | | Other (including mixed) | | Unknown / Not applicable | | White | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Female | Male | Female | Male | Female | Male | Female | Male | Female | Male |
| Third Class Honours / Pass | 0.0% | 20.0% | 0.0% | 33.3% | 0.0% | 0.0% | 6.3% | 8.3% | 4.0% | 7.1% |
| Lower Second Class Honours | 33.3% | 40.0% | 50.0% | 33.3% | 50.0% | 50.0% | 18.8% | 33.3% | 23.3% | 25.7% |
| Upper Second Class Honours | 66.7% | 40.0% | 50.0% | 33.3% | 0.0% | 50.0% | 43.8% | 41.7% | 44.9% | 40.7% |
| First Class Honours | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 50.0% | 0.0% | 31.3% | 16.7% | 27.8% | 26.5% |

Third Class Honours / Pass   Lower Second Class Honours   Upper Second Class Honours   First Class Honours

Tabl STU-18; Ffynhonnell:  HESA


## 4.2.5 Anabledd

Mae'r data ymgeisio ar gyfer myfyrwyr sydd wedi datgan anabledd yn dangos bod 10.4% o fyfyrwyr yn datgan anabledd yn rhan o'r broses ymgeisio.  Mae canran yr anableddau datganedig yn cynyddu i 17.7% yn achos myfyrwyr cofrestredig (gweler tablau STU-19 a 21).





TABL STU-19  Ffynhonnell:  Ffynonellau mewnol

Mae Tabl STU-20 yn rhoi manylion yr anableddau / amodau / namau a fydd yn cael eu datgan yn rhan o'r cyfnodau ymgeisio.  O gymharu â'r data datgelu ar gyfer myfyrwyr cofrestredig (tabl STU-22) gwelir mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng y mathau o namau a nodir adeg ymgeisio a chofrestru.





TABL STU-20  Ffynhonnell:  Ffynonellau mewnol

Mae Tabl STU-21 yn dangos bod gan 17.7% o'r holl ddisgyblion anabledd datganedig.  Mae hyn yn uwch o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol o 11.3% a chyfartaledd Cymru o 11.6%. Roedd 18.2% o'r myfyrwyr Israddedig Gradd Gyntaf amser llawn yn derbyn DSA, 9.4% yn uwch na meincnod y sefydliad.





TABL STU-21  Ffynhonnell HESA

Mae Tabl STU-22 yn rhoi manylion y manylion y math o nam ar gyfer 17.7% o fyfyrwyr sydd ag anabledd datganedig.  Yn unol ag ystadegau cenedlaethol, anhawster dysgu penodol yw'r anabledd datganedig mwyaf cyffredin.  Mae gan 57% o'r Drindod Dewi Sant anhawster dysgu penodol, o'u cymharu â 44.1% yn genedlaethol.  Daw datganiad o gyflwr iechyd meddwl yn ail, a hynny unwaith eto'n unol ag ystadegau cenedlaethol (14.4% ~ 17.5%) ac afiechyd hirdymor neu gyflwr iechyd yn drydydd (8% ~ 9.9%).  Cynyddodd datgeliad cyflwr iechyd meddwl o 12% i 14%, sef cynnydd a oedd unwaith eto yn unol â thueddiadau cenedlaethol.





TABL STU-22. Ffynhonnell HESA

Yn Nhabl STU-23 rhoddir manylion y mathau o raddau a astudir gan fyfyrwyr sydd ag anabledd datganedig.  Mae'r patrwm yma'n adlewyrchu'r patrwm cenedlaethol o ddatgelu fesul math o radd. Defnyddir y data anabledd datganedig fesul pwnc yn y sefydliad i dargedu a chanolbwyntio cymorth.




TABL STU-23. Ffynhonnell: HESA


Yn wahanol i'r darlun cenedlaethol, lle mae myfyrwyr rhan-amser yn fwy tebygol o fod yn anabl na myfyrwyr amser-llawn (17% ~ 12.3%), yn Y Drindod Dewi Sant mae 20.4% o'r holl fyfyrwyr amser llawn yn anabl ac 11.1% o'r holl fyfyrwyr rhan-amser (gweler tabl STU-24).




TABL STU-24. Ffynhonnell: HESA


O ran cyrhaeddiad (gweler tabl STU-25), mae 69% o'r myfyrwyr heb anabledd anhysbys yn cael gradd Anrhydedd Dda, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 73.4% ac ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 70.6%. Caiff 72% o'r myfyrwyr sydd ag anabledd radd Anrhydedd Dda

sy'n unol â'r cyfartaledd cenedlaethol o 71.8%, sy'n uwch o lawer na chyfartaledd Cymru sef 67.9% a 3% uwch cyfartaledd Y Drindod Dewi Sant i fyfyrwyr heb anabledd hysbys. Yn yr un modd, dim ond 1% o fyfyrwyr anabl sy'n cael gradd Trydydd Dosbarth neu Lwyddo, o'u cymharu â 6% o'r myfyrwyr heb anabledd hysbys. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru o 5.8% a chyfartaledd y DU o 5.4% ar gyfer myfyrwyr sy'n cael; gradd Trydydd Dosbarth neu Lwyddo.



TABL STU-25. Ffynhonnell: HESA

Mae cyfraddau Anrhydedd Da, fodd bynnag, yn gwahaniaethu yn ôl statws yr anabledd fel y nodir yn nhabl STU-26. Oherwydd y niferoedd isel sy'n gysylltiedig ag anableddau penodol, byddwch yn ymwybodol yn nhabl talgrynnu HESA am resymau diogelu data. Ar gyfer myfyrwyr sydd ag anhawster dysgu penodol caiff 74% radd Anrhydedd Dda uwch y cyfartaledd cenedlaethol o 71.2%. Caiff 66% o fyfyrwyr sydd â nam cyfathrebu cymdeithasol ar y sbectrwm awtistig radd Anrhydedd Dda, ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 68.2%. Mae nifer o ganlyniadau yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Cafodd 60% o'r myfyrwyr a oedd yn datgan dwy amod neu ragor radd anrhydedd dda, sef 6.4% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 66.4%. Ar gyfer myfyrwyr sydd â chyflwr iechyd meddwl, cafodd 70% y canlyniad hwn, 4% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol; ar gyfer myfyrwyr sydd ag afiechyd hirdymor neu gyflwr meddygol 66%, 8.4% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 74.4%.





| | A long-standing illness or health condition | A physical impairment or mobility issues | Another disability, impairment or medical condition | Blind or a serious visual impairment | Deaf or a serious hearing impairment | Mental health condition | No Known Disability / Unknown | Social communication/Autistic spectrum disorder | Specific learning difficulty | Two or more conditions |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Third Class Honours / Pass | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 6% | 0% | 0% | 20% |
| Lower Second Class Honours | 33% | 0% | 33% | 0% | 0% | 30% | 25% | 33% | 26% | 20% |
| Upper Second Class Honours | 33% | 0% | 33% | 0% | 0% | 40% | 43% | 33% | 48% | 40% |
| First Class Honours | 33% | 0% | 33% | 0% | 0% | 30% | 26% | 33% | 26% | 20% |

Third Class Honours / Pass   Lower Second Class Honours   Upper Second Class Honours   First Class Honours

TABL STU-26. Ffynhonnell HESA

## 4.2.6 Crefydd / Cred


Yn 2015/16 nododd 40.6% o fyfyrwyr eu bod yn ddi-grefydd; sef ffigwr a ddisgynnodd i 36.5% ar gyfer 2016/17 (gweler tabl STU-27). Fodd bynnag, cynyddodd canrannau myfyrwyr a ddewisodd neu a wrthododd y wybodaeth hon 6.2%. Ar gyfer sylwadau ynghylch data datgelu, gweler adran 4.2. Disgynnodd canran y myfyrwyr a nododd eu bod yn Gristnogion o 29.4% i 25.5%. Ar y llaw arall, cynyddodd canran y myfyrwyr a nododd eu bod yn Fwslimiaid o 2.7% i 3.7%.




TABL STU-27. Ffynhonnell:  Ffynonellau mewnol

### 4.2.7 Cyfeiriadedd Rhywiol

61% o fyfyrwyr a noddodd mai heterorywiol oedd eu cyfeiriadedd rhywiol, sy'n parhau â'r duedd tuag i lawr er 2014/15 (2014/15:  81%, 2015/16: 68.3%).  Mae gwybodaeth a ddatgelwyd ynghylch pob cyfeiriadedd rhywiol arall wedi parhau'n sefydlog rhwng 2015/16 a 2016/17. Mae cyfraddau datgelu, fodd bynnag, wedi disgyn (gweler hefyd adran 4.2). Gwrthododd 26.7% o fyfyrwyr y wybodaeth neu gadwyd y wybodaeth yn wag yn 2015/16; yn 2016/17 codwyd hyn i 34.4%, sef lleihad o 7.7%.




TABL STU-28. Ffynhonnell: Ffynonellau mewnol